



4.0 Gwirfoddolwyr

Gwirfoddolwyr ac Yswiriant

Overview

1. Cyflwyniad
2. Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr
3. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
4. Yswiriant Damweiniau Personol
5. Yswiriant Cerbyd Modur
6. Yswiriant Indemniad Proffesiynol
7. Yswiriant Atebolrwydd / Indemniad Ymddiriedolwyr
8. Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch
9. Yswiriant Digwyddiadau Arbennig
10. Gwirfoddoli â Chymorth y Cyflogwr
11. Gwybodaeth Bellach

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r mathau gwahanol o yswiriant y gellir eu cael ar gyfer gwirfoddolwyr a ble arall y gallwch fynd i gael rhagor o wybodaeth.

Cyflwyniad

Mae'n hanfodol sicrhau yswiriant priodol i staff a gwirfoddolwyr, ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei adolygu'n rheolaidd.

Mae cyfrifoldeb ar fudiadau i ddarparu yswiriant, nid yn unig ar gyfer colled, difrod neu anaf y gall gwirfoddolwyr ei ddioddef, ond hefyd unrhyw golled, difrod neu anaf i eraill a all gael ei achosi gan weithgareddau gwirfoddolwyr.

Mae rhai polisïau yn ofynnol yn ôl y gyfraith; mae eraill yn ddewisol. Y mudiad sy'n penderfynu beth sy'n briodol. Y ffordd orau o wneud penderfyniad o'r fath yw ar y cyd â'r asesiad o risgiau gweithgareddau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr.



I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen wybodaeth:
4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel

Dyma'r mathau mwyaf cyffredin o yswiriant a all fod yn angenrheidiol:

Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr

Mae gorfodaeth gyfreithiol ar fudiadau i gael Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr ar gyfer eu haelodau staff ar gyfer damwain, afiechyd neu anaf sy'n digwydd yn ystod eu gwaith.

Gellir ei ymestyn i gynnwys gwirfoddolwyr ac argymhellir hyn yn fawr.

Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Fe'i gelwir weithiau'n '**Yswiriant trydydd parti**', mae'n diogelu'r mudiad os digwydd anaf i bobl heblaw am aelodau o staff (**h.y. y cyhoedd**) neu golled neu ddifrod i'w heiddo. Mae dim ond yn cynnwys yr atebolrwydd cyfreithiol, hyd at uchafswm, ac ni fydd yn darparu iawndal ond mewn achosion pan ellir dangos bod damwain neu golled wedi digwydd o ganlyniad i esgeulustod ar ran y mudiad.

Dylai'r polisi hwn gynnwys yn benodol weithgareddau gwirfoddolwyr, gan gynnwys unrhyw weithgareddau a gynhelir oddi ar brif safle'r mudiad, er enghraifft, yng nghartref cleientiaid neu leoliadau preswyl. Heb yr yswiriant hwn, gallai'r mudiad a/neu unigolyn fod yn atebol yn bersonol.

Yswiriant Damweiniau Personol

Mae'r yswiriant hwn ar gyfer anaf neu farwolaeth sy'n digwydd wrth gynnal gwaith ar gyfer mudiad, ni waeth a oes atebolrwydd cyfreithiol ai peidio. Gall y polisi gynnwys eithriadau, megis cyfyngiadau oedran, neu fathau o weithgaredd. Gallech ddewis cael polisi o'r fath i yswirio rhai rolau gwirfoddol neu bob un, yn enwedig os oes risg uchel o ddamwain gorfforol ynddynt. Gellid ystyried yr yswiriant hwn yn fudd gwirfoddol yn hytrach nag yswiriant hanfodol. Fodd bynnag, mae'r yswiriant hwn yn ddewisol yn hytrach na hanfodol.

Yswiriant Cerbyd Modur

Os yw gwirfoddolwyr yn gyrru cerbydau sydd dan berchnogaeth y mudiad, cyfrifoldeb y mudiad yw trefnu yswiriant priodol.

Dylai gwirfoddolwyr sy'n defnyddio eu cerbyd eu hunain i wirfoddoli gael yswiriant cyfredol (yn ogystal ag MOT a thrwydded yrru ddilys) ac mae'n ddoeth sicrhau bod ganddynt hyn. Dylai gwirfoddolwyr roi gwybod i'w cwmni yswiriant eu bod yn defnyddio eu cerbyd wrth wirfoddoli ac ni ddylai hyn achosi unrhyw gost ychwanegol. Os taw yswiriant trydydd parti yn unig sydd gan wirfoddolwr, dylid nodi na fyddai'n briodol ar gyfer achos o ddwyn eiddo'r mudiad o gar y gwirfoddolwr.

Pe bai gyrrwr yn cael damwain wrth wirfoddoli a bod yna broblem gyda'r yswiriant cerbyd, gallai'r mudiad fod yn gyfrifol, ni waeth a yw'n berchen ar y cerbyd ai peidio. Mae yswiriant ychwanegol ar gael, fel opsiwn, a fyddai'n diogelu **bonws am beidio â hawlio** y gwirfoddolwr mewn achos o ddigwyddiad wrth wirfoddoli.

Gallech ystyried ychwanegu gyrrwr sy'n wirfoddolwyr at eich polisi atebolrwydd cyhoeddus.



Gwybodaeth bwysig

Sicrhewch fod gan unrhyw yrrwr y drwydded yrru briodol, er enghraifft, os bydd angen iddo yrru minibws 16 sedd

[Canllawiau - Gyrru Minibws](#)

Yswiriant Indemniad Proffesiynol

Os yw gwirfoddolwyr yn rhan o gynghori'r cyhoedd, gallech ystyried yr angen am yr yswiriant hwn a fyddai'n yswirio unrhyw gais am iawndal mewn achosion o anaf, difrod neu golled o ganlyniad i gyngor anghywir neu gyngor gwael.

Dylai yswiriant indemniad proffesiynol gynnwys hefyd difenwad, tor-hawlfraint anfwriadol, cyfrinachedd a cholli dogfennau.

Os oes gan eich mudiad bolisi o'r fath, sicrhewch fod gwirfoddolwyr yn cael eu cynnwys yn benodol ynddo.

Yswiriant Atebolrwydd / Indemniad Ymddiriedolwyr

Mae'n bosib cael yswiriant i gynnwys ymddiriedolwyr (neu bwyllgor rheoli sydd â chyfrifoldebau llywodraethu, os nad yw'r mudiad yn elusen), lle gall eu gweithredoedd arwain at golled ariannol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cynnwys gweithredoedd esgeulus neu anghyfreithlon, felly, nid yw'n diddymu'r angen i sicrhau llywodraethu da.

Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch

Os yw'ch mudiad yn cynhyrchu, yn atgyweirio neu'n gosod nwyddau, gallech ystyried y lefel o risg o atebolrwydd dros nwyddau neu waith diffygiol. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer bwyd a brynir gan eich mudiad, er enghraifft mewn caffi.

Yswiriant Digwyddiadau Arbennig

Os yw'ch digwyddiad y tu hwnt i ystod arferol eich gweithgaredd yna efallai na fydd yswiriant sydd gennych yn barod yn ei gynnwys. Mae'n werth holi'ch yswiriwr ac, os oes angen, cymryd yswiriant ychwanegol ar gyfer y digwyddiad (ffair, ras hwyl, naid bynji, gwibdaith neu beth bynnag).

Os bydd castell neidio'n cael ei logi (gyda neu heb weithredwr), sicrhewch bod yswiriant yn ei le. Hyd yn oed os oes gweithredwr yn bresennol, mae'n bosibl y bydd gofyn i'r mudiad lofnodi ymwadiad.

Gwirfoddoli â Chymorth y Cyflogwr

Arnoch chi, fel y mudiad sy'n cynnal y gwaith gwirfoddol, fyddai'r cyfrifoldeb i sicrhau bod yswiriant priodol yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw weithwyr o gwmnïau allanol sy'n gwneud gwaith gwirfoddol i'ch mudiad.

Yn yr un modd, os yw myfyriwr ar leoliad neu brofiad gwaith, mae angen i'r cwmni yswiriant wybod oherwydd gellid bod cyfyngiadau oed ar eich yswiriant.

Gwybodaeth bellach

Un elfen yn eich strategaeth rheoli risg yw yswiriant. Gallwch hefyd ddarllen taflenni eraill CGGC/Cynghorau gwirfoddol sirol ar y mater hwn:

Broceriaid Yswiriant Arbenigol

Volresource

<https://vr.volresource.org.uk/services/insurance/>

Cwestiynau cyffredin ar gyfer mudiadau nid-er-elw

Zurich

<https://www.zurich.co.uk/en/charity-insurance/get-help/faqs>

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr - Safon

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

<https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard>

Taflenni gwybodaeth ychwanegol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

2.11 Yswiriant

4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel

4.8.1 Aseidiadau risg - gwirfoddolwyr sy'n gweithio o gartref

4.18 Gyrwyr Gwirfoddol



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.